Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg

The Avenue
Tonyrefail
Porth
RhCT
CF39 8PS

Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2025

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant

yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Categori'r ysgol yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg | |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | * |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 86 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 65 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 11 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 21.7%) | 50.2% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 9.2%) | 18.5% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | * |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | * |

| | |
|---|---|
| Partner arweiniol mewn addysg gychwynnol athrawon | Nac ydy |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2021 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 28/02/2017 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 10/11/2025 |

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy'r ddolen isod: fyysgolleol.llyw.cymru

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Crynodeb

Mae Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg yn ysgol groesawgar a chyfeillgar lle mae'r pennaeth yn awyddus i bob un o'r disgyblion fod y gorau y gallant fod a chael dyheadau uchel ar gyfer eu dyfodol. Mae arweinwyr yn meithrin cysylltiadau agos â rhieni ac aelodau o'r gymuned, ac mae'r bartneriaeth gynyddol hon yn golygu bod rhieni'n teimlo'n gyfforddus yn gofyn am gyngor a help am ddysgu a lles eu plentyn.

Mae staff yn meithrin perthnasoedd gwaith cryf â disgyblion ac yn darparu cymorth effeithiol ar gyfer unrhyw un sydd â gofid neu bryder. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda ac yn cydweithio â disgyblion eraill. Mae'r ddarpariaeth anogaeth a gyflwynwyd yn ddiweddar a gwaith staff yn helpu creu awyrgylch digynnwrf ac yn darparu gofod lle mae disgyblion sy'n cael trafferthion yn gallu rheoli eu hymddygiad.

Mae llawer o athrawon yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol effeithiol, ac mae ffocws ar wella medrau Cymraeg disgyblion. Erbyn iddynt adael yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion wedi gwneud cynnydd da yn eu dysgu. Mae staff yn cynorthwyo disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn effeithiol, gan eu helpu i wneud cynnydd cadarn tuag at eu targedau dysgu a lles. Mewn llawer o achosion, mae'r dysgu'n symud ar gyflymdra addas ac yn darparu lefelau priodol o her ar gyfer disgyblion, ond nid yw hyn yn gyson ar draws yr ysgol.

Mae presenoldeb disgyblion yn dechrau gwella, ond mae gormod o ddisgyblion nad ydynt yn mynychu'r ysgol yn ddigon rheolaidd, ac felly nid ydynt bob amser yn gwneud y cynnydd y gallent ei wneud.

Mae arweinwyr yn adnabod yr ysgol yn dda ac yn nodi meysydd i'w gwella yn gywir, ar y cyfan. Fodd bynnag, wrth gynllunio ar gyfer gwelliant, mae tuedd i geisio mynd i'r afael â gormod o agweddau ar unwaith, ac mae hyn yn arafu cynnydd. At ei gilydd, mae llywodraethwyr yn adnabod yr ysgol yn dda ac yn gweithio'n effeithiol gydag arweinwyr i reoli cyllid yr ysgol. Mae pob un o'r staff yn cymryd cyfrifoldeb am ddarparu cymorth effeithiol ar gyfer dysgwyr sy'n cael eu heffeithio gan dlodi.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud tri argymhelliad i helpu’r ysgol i barhau i wella, sef:

A1. Lleihau absenoldebau parhaus

A2. Symleiddio prosesau cynllunio gwelliant i sicrhau ffocws clir ar flaenoriaethau’r ysgol

A3. Sicrhau bod pob disgybl yn cael lefel briodol o her, yn enwedig disgyblion iau

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif werthusiad

Mae arweinwyr yn Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg yn adnabod eu disgyblion a'u teuluoedd yn dda ac yn darparu amgylchedd cynnes a gofalgar lle caiff pawb eu gwerthfawrogi a'u hannog i wneud eu gorau. Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth ystyriol a chynhwysol. Mae hi'n rhannu gweledigaeth glir i ddisgyblion fod yn ddiogel, yn saff ac yn uchelgeisiol.

Mae staff yn gweithio'n ddiwyd i feithrin cysylltiadau agos â rhieni a'r gymuned leol. O ganlyniad, mae'r bartneriaeth rhwng yr ysgol a'r cartref yn gryf, ac mae rhieni'n gwerthfawrogi'r gofal a'r ymroddiad a ddangosir gan staff i sicrhau bod eu plant yn hapus ac yn setlo'n gyflym. Mae rhieni'n teimlo'n gyfforddus yn troi at yr ysgol i fynegi eu pryderon am les eu plentyn neu i gael cyngor ar gefnogi eu dysgu.

Mae disgyblion yn dangos synnwyr clir o berthyn a balchder yn eu hysgol. Maent yn gwerthfawrogi'r perthnasoedd gwaith agos â staff a disgyblion eraill. Mae grwpiau llais y disgybl yn cyfoethogi gwaith yr ysgol yn y gymuned, er nad yw rolau disgyblion sy'n arwain y grwpiau hyn wedi'u datblygu'n ddigonol ar hyn o bryd.

Mae staff yn cydweithio i gynllunio a chyflwyno cwricwlwm cynhwysol a dilys sy'n darparu dysgu o ehangder a manylder addas ar gyfer disgyblion. Mae athrawon yn meithrin dealltwriaeth disgyblion o dreftadaeth hanesyddol, ddiwylliannol ac ieithyddol eu hardal leol a Chymru yn effeithiol trwy ymweliadau ac ymwelwyr â'r ysgol, a chymryd rhan yn yr eisteddfod leol. Mae cysylltiadau cryf â'r gymuned yn cyfoethogi'r cwricwlwm ac yn codi dyheadau disgyblion trwy eu hamlygu i brofiadau newydd. Mae athrawon yn galluogi disgyblion i ddatblygu dealltwriaeth o natur gymhleth cymdeithasau trwy eu cyflwyno i storïau'r gorffennol a'r presennol am eu hardal leol, Cymru a'r byd ehangach.

Mae staff yn hyrwyddo datblygiad creadigol ac artistig yn dda trwy ystod o weithgareddau mewn celf, cerddoriaeth, dawns, a drama, sy'n golygu bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau creadigol cryf. Mae'r ysgol yn cyflwyno gwersi ar draws y cwricwlwm a gwasanaethau yn hynod effeithiol sy'n meithrin ymwybyddiaeth ysbrydol, foesol, gymdeithasol a diwylliannol disgyblion.

Mae llawer o athrawon yn darparu cyfleoedd pwrpasol a graddol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol. Mewn llawer o achosion, mae'r dysgu'n symud ar gyflymdra addas ac yn cyflwyno lefelau priodol o her a chymorth i ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn caffael y medrau angenrheidiol i wella'u gwaith a gwneud y cynnydd disgwyliedig. Fodd bynnag, mae anghysondebau mewn cyflymdra a her, yn enwedig ar

gyfer disgyblion iau. O ganlyniad i hyn, mae lleiafrif o ddisgyblion yn ymddieithrio yn ystod gweithgareddau dysgu.

At ei gilydd, mae oedolion yn modelu lleferydd yn dda ac yn rhoi blaenoriaeth uchel i ddatblygu medrau llafaredd disgyblion. O ystyried eu mannau cychwyn, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau gwrando a siarad yn dda. Mae'r ysgol yn rhoi blaenoriaeth uchel i ddatblygu medrau darllen disgyblion i sicrhau eu bod yn gwneud cynnydd da wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Erbyn Blwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen ystod o genres â rhuglder a hyder. Maent yn datblygu eu medrau darllen yn ddigonol i elwa ar bob elfen o'r cwricwlwm yn llwyddiannus. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da mewn ysgrifennu wrth iddynt symud ymlaen trwy'r ysgol. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion hŷn yn ysgrifennu'n bwrpasol ar draws ystod o genres ffeithiol a chreadigol, gan ddefnyddio geirfa sy'n gynyddol soffistigedig a strwythurau brawddeg amrywiol.

Mae gan yr ysgol gynlluniau priodol i hyrwyddo datblygiad Cymraeg disgyblion. Mae'r rhain yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar fedrau disgyblion, ond nid oes gan ddisgyblion hŷn yr hyder i ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i wersi ffurfiol.

Mae disgyblion ar draws yr ysgol yn elwa ar ystod eang o brofiadau mathemategol. Mae llawer o athrawon yn cynllunio gweithgareddau diddorol a phwrpasol sy'n gweddu'n dda i gyfnod dysgu disgyblion. Mae hyn yn helpu sicrhau bod y rhan fwyaf o'r disgyblion hŷn yn datblygu dealltwriaeth gadarn o gysyniadau mathemategol ac yn cymhwyso'u medrau rhifedd a datrys problemau yn effeithiol ar draws y cwricwlwm. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion ar draws yr ysgol yn datblygu medrau digidol da ac yn eu cymhwyso'n llwyddiannus i gefnogi eu dysgu ac ymestyn eu gwaith ar draws y cwricwlwm.

Mae athrawon yn gwneud defnydd da o dasgau 'Tref' mwy annibynnol i roi cyfleoedd i ddisgyblion ddylanwadu ar beth maent yn ei ddysgu, a sut. Mae hyn yn cynorthwyo'r rhan fwyaf o'r disgyblion hŷn i weithio'n llwyddiannus gyda'u cyfoedion a datblygu i fod yn ddysgwyr effeithiol sy'n dangos gwydnwch a dyfalbarhad wrth wynebu heriau.

Mewn llawer o ddosbarthiadau, pan mae'r addysgu'n fwyaf effeithiol, mae athrawon yn dangos disgwyliadau uchel o bob un o'r disgyblion ac yn defnyddio holi ac adborth yn fedrus i atgyfnerthu ac ymestyn y dysgu. Fodd bynnag, nid yw hyn yn gyson ar draws yr ysgol. Mae athrawon a staff cymorth yn deall anghenion eu disgyblion yn dda ac yn creu amgylcheddau dysgu cyfforddus ac ysgogol, fel y gornel gartref realistig ar gyfer disgyblion iau. Mae staff cymorth yn cynorthwyo disgyblion yn fedrus ac yn aml yn gweithredu ar eu blaengaredd eu hunain i ymateb i anghenion dybryd disgyblion.

Mae mwyafrif o staff yn modelu'r Gymraeg yn effeithiol ac yn darparu cyfleoedd defnyddiol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llafaredd Cymraeg. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn

defnyddio’r Gymraeg yn dda mewn gwersi, ond yn gyffredinol, nid oes ganddynt yr hyder i ddefnyddio’r Gymraeg y tu allan i’r ystafell ddosbarth.

Mae’r perthnasoedd gwaith cefnogol a chyfeillgar rhwng staff a disgyblion yn gryfder yn yr ysgol. Mae disgyblion yn teimlo’n hyderus y bydd staff yn gwrando arnynt ac yn ymateb i unrhyw bryderon. Mae diwylliant o barch ar y ddwy ochr yn meithrin ymddiriedaeth ar draws yr ysgol. Yn gyffredinol, mae gan staff ddisgwyliadau uchel ar gyfer dysgu ac ymddygiad disgyblion, ac mae ymddygiad y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda. Mae staff yn rheoli achosion o ymddygiad heriol yn dda. Maent yn defnyddio strategaethau effeithiol i gynorthwyo disgyblion sy’n ei chael yn heriol rheoleiddio eu hymddygiad.

Mae athrawon a chynorthwywyr addysgu yn cynorthwyo disgyblion ag ADY yn effeithiol, gan eu helpu i wneud cynnydd da tuag at eu targedau dysgu a’u lles unigol. Mae’r ddarpariaeth anogaeth a gyflwynwyd yn ddiweddar yn galluogi pob un o’r disgyblion i ddysgu mewn amgylchedd digynnwrf.

Er bod presenoldeb cyffredinol wedi gwella’n ddiweddar, mae gormod o ddisgyblion yn absennol yn barhaus, ac felly nid ydynt bob amser yn gwneud y cynnydd y gallent ei wneud.

Mae arweinwyr yn datblygu prosesau addas i werthuso gwaith yr ysgol a sicrhau bod hyn yn cyfrannu at gynllunio gwelliant. Fodd bynnag, mae tuedd i fynd i’r afael â gormod o agweddau ar unwaith, ac mae hyn yn rhwystro cynnydd cyffredinol. Mae arweinwyr yn sicrhau bod yr ysgol yn mynd i’r afael â blaenoriaethau cenedlaethol yn briodol, ac mae pob un o’r staff yn cymryd cyfrifoldeb am ddarparu cymorth effeithiol ar gyfer dysgwyr sy’n cael eu heffeithio gan dlodi. Ceir systemau a phrosesau effeithiol i olrhain cynnydd disgyblion.

Mae gwaith yr ysgol gyda phartneriaid allanol yn effeithiol, yn enwedig o ran cefnogi’r corff llywodraethol, sydd wedi miniogi ffocws cyfarfodydd pwyllgorau a sicrhau bod llywodraethwyr yn cael eu hysbysu’n dda. Mae llywodraethwyr yn meddu ar ddealltwriaeth dda o waith yr ysgol. Maent yn darparu her effeithiol a chymorth gwerthfawr ac yn dechrau casglu tystiolaeth uniongyrchol i ddwyn yr ysgol i gyfrif.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yr ysgol yn rheoli cyllid yr ysgol yn effeithiol. Maent yn gwneud penderfyniadau a ystyriwyd yn ofalus sydd o fudd i bob disgybl. Mae’r ysgol yn defnyddio’i chyllid grant, yn cynnwys y grant datblygu disgyblion, yn dda i leihau anghydraddoldeb a gwella lles disgyblion.

Mae arweinwyr yn mynd ati i gefnogi dysgu proffesiynol ar bob lefel. Maent yn gwneud trefniadau priodol i staff weithio gyda phobl eraill a rhannu eu harbenigedd i gefnogi blaenoriaethau’r ysgol.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Codwyd pryder ynghylch rheoli'r safle yn ystod yr arolygiad, ac mae'r awdurdod lleol wedi cael gwybod.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, yn cynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni / gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 15/01/2025